## RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod Y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni , ddydd Llun, 20 Mai, 2019

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5:00pm ar ddydd Mercher, 22 Mai, 2019. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm ar ddydd Iau, 30 Mai, 2019. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) ar ddydd Gwener, 31 Mai, 2019.

**Presennol**: Y Cynghorwyr R Dew, Llinos Medi Huws (Cadeirydd), R. Meirion Jones, R G Parry OBE FRAgS, Ieuan Williams, Alun W Mummery, Carwyn Jones a Robin Williams

**Hefyd yn bresennol**: Y Cynghorwyr Lewis Davies, Bryan Owen, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Dylan Rees

**Ymddiheuriadau**: Y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas

(10:00 y. b. tan 10:30 y. b.)

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 Cofnodion**<br>Amherthnasol |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 29 Ebrill, 2019 fel rhai cywir.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Amherthnasol** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith**<br>Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau'r Rhaglen Waith wedi ei diweddaru am y cyfnod o Fehefin, 2019 i Ionawr, 2020 fel y'i cyflwynwyd.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **I gryfhau atebolrwydd a threfniadau cynllunio ymlaen llaw.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| | |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 Ffurfioli'r Bartneriaeth rhwng Ysgol Goronwy Owen ac Ysgol Moelfre trwy'r Broses Ffederaleiddio**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Dysgu |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd awdurdodi Swyddogion i gychwyn y broses o ymgynghori ar ffurfioli'r bartneriaeth rhwng Ysgol Goronwy Owen ac Ysgol Moelfre trwy ffederaleiddio'r ddau gorff llywodraethu.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **I ymateb i'r cais gan Gyrff Llywodraethu Ysgol Goronwy Owen ac Ysgol Moelfre** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 Strategaeth Foderneiddio - Ardaloedd Llangefni a Seiriol**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Dysgu |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br>• **Diddymu'r penderfyniadau blaenorol a wnaed gan y Pwyllgor Gwaith ynglyn â dyfodol addysg yn ardaloedd Llangefni a Seiriol.**<br>• **Gofyn i'r Swyddogion edrych o'r newydd ar y gwahanol faterion mewn perthynas â moderneiddio ysgolion a'r gofynion o dan y Côd Trefniadaeth Ysgolion 2018 yn ardal Llangefni ac yn ardal Seiriol ac i ddychwelyd gydag adroddiad priodol i'r Pwyllgor Gwaith maes o law.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Mewn ymateb i ganfyddiadau adolygiad mewnol o'r broses ymgynghori statudol yn ardaloedd Llangefni a Seiriol** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 Polisi Gosod - Ymgynghori ar gynnwys Cysylltiad Lleol o fewn y System Bandio** |

| | |
|---|---|
| | Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br><br>• **Yn dilyn cynnal gwaith ymchwil pellach, bod cyfnod ymgynghori yn cymryd lle ar gyfer cynnwys cysylltiad lleol o fewn y Polisi Gosod Cyffredin cyfredol a,**<br>• **Bod y cyfnod ymgynghori yn gallu cynnig cyfle i wella trefniadau gweinyddu'r Gofrestr.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Fel rhan o adolygiad o'r Polisi Gosod Cyffredin** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |